# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma.

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd / Ysgol Fusnes Wrecsam |
| **Adran** | Busnes |
| **Teitl y Swydd** | Uwch Ddarlithydd Data Busnes ac Arloesi |
| **Yn atebol i** | Prif Ddarlithydd |
| **Gradd** | Uwch-ddarlithydd |

## Trosolwg o'r Swydd

Bydd deiliad y swydd yn addysgu ar raglenni Prifysgol Wrecsam, yn cyflawni gwaith ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd, ac yn cyfrannu at reoli'r rhaglenni hyn yn ôl yr angen.

Bydd yr unigolyn yn cyfrannu at weithgareddau masnachol a gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill, lle bo'n briodol.

Cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod ansawdd a safonau academaidd y brifysgol yn cael eu cynnal a bod profiad myfyrwyr yn cael ei wella'n barhaus.

## Diben y Swydd

Arwain dylunio, darparu a gwelliant parhaus rhaglenni sy'n integreiddio data busnes, trawsnewid digidol, arloesi ac AI a thechnolegau newydd ar draws yr holl ffwythiannau busnes. Byddwch yn hyrwyddo addysgu ac arloesi sefydliadol sy'n gysylltiedig â diwydiant, yn darparu dysgwyr gyda'r sgiliau er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n cael eu galluogi gan ddata busnes ar draws y sectorau.

Byddwch yn cyfrannu at weledigaeth a blaenoriaethau'r Ysgol Fusnes mewn galluoedd digidol er mwyn cefnogi datblygiad rhanbarthol a dyluniad ymchwil sy'n cael ei arwain gan ddiwydiant. Byddwch yn dylunio profiadau dysgu cynhwysol ac apelgar sy'n alinio gyda'r fframweithiau rheolaethol a sicrwydd ansawdd perthnasol.

Byddwch yn datblygu arloesi addysgol a dysgu cymhwysol sy'n datblygu'r cwricwlwm, ac yn rhannu eich gwybodaeth a'ch ymchwil drwy gynadleddau, cyhoeddiadau, rhwydweithiau'r sector a thimau mewnol, gan wella enw da'r Ysgol Fusnes fel sefydliad rhanbarthol arweiniol yn y maes hwn. Byddwch hefyd yn datblygu perthnasoedd gwaith ardderchog ac yn hyrwyddo gweithio'n rhyngddisgyblaethol. Byddwch hefyd yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr tuag at y REF, allbynnau ymchwil, a gwneud yn fawr o gyfleoedd ariannu er mwyn cynhyrchu incwm.

Mae prif gyfrifoldebau yn cynnwys:

Dysgu modiwlau sy'n gysylltiedig gyda data, technoleg a/neu arloesi. Byddwch yn gydweithredol ac yn ymrwymedig i rymuso dysgwyr gyda sgiliau sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Datblygu galluoedd addysgu o amgylch ecosystemau data a llythrennedd digidol deallusrwydd busnes, adnoddau dadansoddi a delweddu megis Power BI, tableau a python, a bod yn hynod o gymwys yn addysgu'r rhain mewn cyd-destun busnes drwy lens adrodd stori, modelu data, dadansoddi rhagfynegol a chynllunio senarios.

Hyrwyddo arferion arloesol mewn datblygu cwricwlwm, ymgysylltu mewn ysgolheictod addysgegol a chyfrannu at arfer addysgu sy'n arwain y sector.

Adeiladu partneriaethau gyda diwydiant, sefydliadau sector gyhoeddus ac eco-systemau arloesol er mwyn cyd-greu cyfleoedd dysgu, cyflymu sgilliau trawsnewid digidol, a gwella addysgu, cyflogadwyedd a thraweffaith ymchwil.

Arwain prosiectau gwella cwricwlwm a heriau arloesi byw, gan ganolbwyntio ar gyflogadwyedd, galluoedd digidol a datrys problemau o'r byd go iawn.

Arwain a darparu addysgu o safon uchel ar draws rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig mewn cyllid a dadansoddeg data, arloesedd digidol a thechnolegau newydd.

Cyfrannu at ddylunio rhaglen a datblygu cwricwlwm, gyda ffocws ar ddysgu cymhwysol, asesu dilys ac addysgeg ddigidol.

Mewnosod adnoddau digidol, dysgu cyfunol ac addysgeg ryngweithiol ar draws rhaglenni.

Goruchwylio myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig, a lle mae'n bosib, myfyrwyr doethurol.

Gwneud cyfraniadau gwerthfawr at arweinyddiaeth academaidd a phroffesiynol o fewn yr adran, gan gyfrannu at fentrau strategol a gwelliant parhaus.

## Prif Atebolrwydd

- Bod yn gyfrifol am ddylunio, cyflwyno a gwerthuso'r modiwlau a'r rhaglenni perthnasol yn barhaus, gan sicrhau y bodlonir amcanion a deilliannau dysgu yr adran, a bod y cynnwys yn berthnasol ac yn adlewyrchu ymarfer cyfredol.
- Datblygu asesiadau priodol sy'n mesur perfformiad a dealltwriaeth myfyrwyr, a sicrhau bod y deilliannau dysgu wedi'u cyflawni.
- Herio syniadau, sbarduno trafodaeth ac annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau sgwrsio beirniadol a meddwl rhesymegol.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau/deunyddiau dysgu ac addysgu (e.e. dysgu cyfunol ac ar y we) er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr.

- Asesu a llunio barn gadarn ynghylch cynnydd myfyrwyr ac adrodd yn ôl ar y wybodaeth hon mewn modd adeiladol, sensitif a gonest.
- Cymryd cyfrifoldeb am ofal bugeiliol myfyrwyr mewn maes penodol, gan gyfeirio problemau pan fyddant yn gymhleth neu'n ddifrifol.
- Gweithredu fel Arweinydd Rhaglen neu ymgymryd â rôl arwain pan fo hynny'n briodol.
- Cyfrannu'n weithredol at wella profiad y myfyriwr.

Gweithgareddau Ymchwil

- Ymgymryd ag ymchwil neu weithgarwch ysgolheigaidd cytunedig arall er mwyn cyfrannu at ddatblygiad y pwnc.
- Paratoi cynigion a cheisiadau i gyrff allanol, yn ôl yr angen, i sicrhau cyllid ymchwil ac i gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Brifysgol.
- Ysgrifennu a chyhoeddi canlyniadau ymchwil arloesol er mwyn hybu safle'r Brifysgol yn y sector Addysg Uwch a'r gymuned ehangach.
- Defnyddio blaengarwch, creadigrwydd a barn i ddatblygu methodolegau ymchwil priodol sy'n hybu gweithgarwch ysgolheigaidd yn y maes.
- Gweithredu fel canolwr a chyfrannu at waith asesu cyfoedion ar gyfer cyfnodolion priodol, yn ôl y gofyn.
- Goruchwylio gwaith myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a/neu fyfyrwyr ymchwil, yn ôl y gofyn, i helpu i ddatblygu sgiliau ymchwil myfyrwyr.

Menter Academaidd

- Cymryd rhan yn natblygiad partneriaethau mewnol ac allanol er mwyn rhannu gwybodaeth, rhannu arferion gorau, sefydlu cyfleoedd am waith ar y cyd a gwella enw da y Brifysgol.
- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau er mwyn hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau.
- Meithrin cysylltiadau gydag asiantaethau a chysylltiadau allanol er mwyn adnabod ffynonellau cyllid a chymryd rhan mewn prosiectau neu waith ar y cyd a fydd yn cynhyrchu incwm ac yn gwella enw da y Brifysgol.
- Ehangu a gwella gwaith yr adran drwy gymryd rôl flaenllaw o ran hyrwyddo'r rhaglenni ac annog staff i ddatblygu strategaethau/syniadau arloesol i helpu i recriwtio a chadw myfyrwyr.

Darparu Gwasanaeth

- Rheoli gofynion addysgu, gweinyddu, ymchwil a gweithgarwch ysgolheigaidd i sicrhau bod terfynau amser sy'n gwrthdaro yn cael eu bodloni.
- Dylunio, adolygu ac addasu cynnwys unedau drwy ddehongli adborth myfyrwyr a rhagweld anghenion er mwyn cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y rhaglen.
- Diweddaru a gwella dogfennaeth a deunyddiau cyfarwyddyd y cwrs pan fo hynny'n briodol, er mwyn cyfoethogi profiad y myfyriwr a chefnogi cynnydd myfyrwyr.
- Amlygu bylchau yng nghynnwys y cwrs a strwythur y rhaglen gyda chydweithwyr a llunio datrysiadau creadigol sy'n bodloni anghenion y prif fframweithiau addysgu.
- Dilyn gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn rhagweithiol ac yn effeithiol, gan gyfrannu at bapurau pan fo hynny'n briodol, i sicrhau y cynhelir safonau'r Brifysgol.
- Cydweithio â chydweithwyr academaidd ar ddatblygu a chyflwyno pynciau, unedau a rhaglenni yn yr adran, a chyfrannu at benderfyniadau strategol yr adran i sicrhau bod portffolio'r cwricwlwm yn parhau'n gyfredol a bod y gweithdrefnau asesu'n berthnasol.
- Cydlynu digwyddiadau myfyrwyr, yn ôl yr angen, gan sicrhau y defnyddir amser ac adnoddau'n effeithiol.

- Cynorthwyo gyda gweithgareddau cyn-mynediad, recriwtio, dethol a derbyn (gan gynnwys Dyddiau Agored a Dyddiau Ymweld) priodol er mwyn hyrwyddo'r adran a chael gwell dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau myfyrwyr.
- Cefnogi prosesau, gweithdrefnau a mentrau'r Brifysgol, er enghraifft, cymryd rhan yn rhai o bwyllgorau'r Brifysgol, paneli dilysu/achredu a grwpiau gorchwyl a gorffen, neu gadeirio'r rhain.

Gwaith Tîm

- Mynd i gyfarfodydd/byrddau y Gyfadran, yr Adran a'r Rhaglenni, yn ôl yr angen, er mwyn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a datblygu cysylltiadau gweithio cynhyrchiol o fewn timau ac ar eu traws.
- Cyflwyno aelodau newydd i'r adran drwy ddarparu cymorth a hyfforddiant mewn perthynas â'r sgiliau, prosesau, systemau a gweithgareddau sy'n benodol i'r adran.
- Darparu adborth i gydweithwyr drwy gynlluniau mentora cyfoedion i gefnogi eich datblygiad eich hun a datblygiad eraill ac i sicrhau gwelliant parhaus ym mherfformiad yr adran.
- Cydlynu eraill a chynllunio terfynau amser asesu a threfniadau addysgu penodol i sicrhau y bodlonir anghenion a disgwyliadau myfyrwyr a bod amser ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Cysylltu a Rhwydweithio

- Ymgysylltu'n weithredol â chyrff proffesiynol a dysgedig e.e. cymryd rhan mewn pwyllgorau, gweithgorau, trefnu cynadleddau/gweithdai.

## Atebolrwydd Personol

- Cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eich meysydd gwaith eich hun.
- Cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gan ystyried hyn wrth gyflawni pob dyletswydd ac agwedd ar y swydd.
- Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn parhau i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau i fod yn effeithiol yn eu swydd.
- Cymryd rhan yn y broses Adolygu Datblygiad Personol, gan gyfrannu at y broses o osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda monitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.
- Dilyn proses y Model Dyrannu Llwyth Gwaith a chymryd rhan ynddi er mwyn cynorthwyo i ddyrannu dyletswyddau unigolion.
- Cymryd cyfrifoldeb am weithredu Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol o fewn eich maes cyfrifoldeb eich hun ac o ran eich ymddygiad cyffredinol.
- Ymgymryd â rôl Iechyd a Diogelwch benodol, sy'n gymesur â'ch gradd, i gefnogi'r Brifysgol i fodloni ei rhwymedigaethau Iechyd a Diogelwch statudol. Gallai hyn gynnwys gweithredu fel Asesydd Offer Sgrin Arddangos, Swyddog Cymorth Cyntaf, Marsial Tân neu Gydlynydd Diogelwch yr Adran. Bydd neilltuo rolau o'r fath yn amodol ar ddarparu hyfforddiant priodol ac asesiad cymhwystra.
- Gall fod yn ofynnol gweithio ar unrhyw un o safleoedd y Brifysgol, gyda rhybudd rhesymol.
- Cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu at ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd Amgylcheddol er mwyn lleihau ei gwastraff, ei defnydd o ynni a'i hôl troed carbon.
- Ymgymryd â dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd y gallai'r Rheolwr neu reolwyr y Brifysgol eu neilltuo er mwyn cefnogi datblygiad y Brifysgol. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

- Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.
- Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.

## Amrywiol

Mae'r Brifysgol yn un o lofnodwyr y Concordat Datblygu Ymchwilwyr a'r Concordat Uniondeb Ymchwil. Mae disgwyl i ddeiliad y swydd lynu wrth ofynion y ddarpariaeth hon.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd. Bwriad y swydd ddisgrifiad hwn yw ei gwneud hi'n bosib cynnig dull gweithredu hyblyg, yn gweithio ar draws y Brifysgol yn ôl yr angen. Gellir ei adolygu a'i newid yn unol ag anghenion newidiol y Brifysgol ac i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol. Cynhelir y weithdrefn ar y cyd gan bob rheolwr mewn ymgynghoriad â'r unigolyn y mae ei swydd yn cael ei hadolygu. Disgwylir i bob aelod o staff gymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau o'r fath. Nod y Brifysgol yw cytuno ar newid rhesymol, ond os nad yw cytundeb yn bosibl, mae ganddi'r hawl i fynnu newidiadau i'r swydd ddisgrifiad ar ôl ymgynghori â'r unigolyn dan sylw.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

## Teitl y Swydd: Uwch Ddarlithydd mewn Data Busnes ac Arloesi

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| | Priodoleddau | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull Adnabod | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Lefel uchel o sgiliau ysgrifenedig, llafar a rhyngbersonol. | Ff, C | H |
| | | 1.2 | Y gallu i addysgu ar draws y maes pwnc a chyfrannu at addysgu yn y Sefydliad a'r Gyfadran. | Ff, Rh, C | H |
| | | 1.3 | Tystiolaeth o wneud cyfraniad mewn tîm ymchwil a'r gallu i gydweithio ar wahanol lefelau ar draws sefydliad. | Ff, C | H |
| | | 1.4 | Y gallu i gefnogi myfyrwyr yn academaidd, yn broffesiynol ac yn fugeiliol. | Ff, Rh, C | H |
| | | 1.5 | Y gallu i gyfrannu at weithgareddau recriwtio a gweithgareddau cadw myfyrwyr i gefnogi tasgau sy'n hanfodol i fusnes (Cyfrannu at ddiwrnodau agored, diwrnodau ymweld ymgeiswyr, y broses glirio a chynefino myfyrwyr). | Ff, C | H |
| | | 1.6 | Y gallu i arddangos ymrwymiad i gynhyrchu incwm ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y maes pwnc perthnasol. | Ff, C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Dealltwriaeth o fecanweithiau a phrosesau ariannu ymchwil ac arddangos tystiolaeth o ddatblygu amcanion a chynigion ymchwil ar gyfer eich ymchwil eich hun neu ymchwil ar y cyd (efallai gyda chymorth mentor). | Ff, Rh, C | H |
| | | 2.2 | Tystiolaeth o waith ymchwil ar gyfer cyhoeddiadau a fydd yn cyfrannu at y maes pwnc neu'n arddangos y potensial i gyflawni'r safon hon o ymchwil. | Ff, Rh, C | H |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.3<br><br>2.4 | Ymrwymiad i weithgareddau ymchwil, menter ac ysgolheigaidd.<br><br>Y gallu i oruchwylio graddau Meistr a addysgir, MPhil a PhD. | Ff, C<br><br>Ff, C | H<br><br>D |
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1<br><br>3.2<br><br>3.3<br><br>3.4<br><br>3.5 | Doethuriaeth y gweithiwyd tuag ati mewn maes pwnc perthnasol (neu'n gweithio tuag at hynny).<br><br>Aelod o gorff proffesiynol neu gorff dysgedig perthnasol.<br><br>Tystysgrif ôl-radd Addysgu mewn AU, neu ymrwymiad i weithio tuag at ddod yn gymrawd o'r Sefydliad Addysg Uwch.<br><br>Gradd Meistr mewn disgyblaeth briodol neu ymrwymiad i weithio tuag at hynny.<br><br>Rhaid dangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus. | A<br><br>Ff, C<br><br>Ff, C<br><br>Ff, C<br><br>Ff, C | H<br><br>H<br><br>H<br><br>H<br><br>H |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1<br><br>4.2 | Profiad blaenorol o addysgu neu gefnogi myfyrwyr.<br><br>Profiad ôl-ddoethurol perthnasol. | Ff, C<br><br>Ff, C | H<br><br>D |
| 5 | Gofynion Arbennig | 5.1<br><br>5.2<br><br>5.3 | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Cofnod cyhoeddi sy'n gymesur â lefel dda o berfformiad ymchwil a'r cam rydych wedi'i gyrraedd yn eich gyrfa. | Ff, C<br><br>Ff, C<br><br>Ff, C | D<br><br>H<br><br>H |
| 6 | Ychwanegol/ Diwygiadau i'r Fanyleb Person | 6.1<br><br>6.2 | *Dal PhD/ neu bod yn gweithio tuag at gyflawni un.*<br><br>*Bod yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu arddangos ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg* | A<br><br>Ff, C | D<br><br>D |
| **Dyddiad Adolygu** | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |
| | | **Gw/D** | Gweithdy/Darlith |
| | | **Rh** | Rhoi Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |

Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma.

Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma.

Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma.

Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma.

Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma.